



# GwE

## Bwletin GwE

CYDWEITHIO

DYSGU

LLWYDDO



# #Diolch



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

## Nodyn gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE



Hoffwn dymuno blwyddyn newydd dda i chi yn y gobaith y cawsoch gyfle i gael seibiant haeddiannol yn ystod y gwyliau. Unwaith eto, rydym yn gweld dechrau anodd iawn i'r flwyddyn.

Rwyf yn llawn sylweddoli bod angen blaenoriaethu materion gweithredol ar hyn o bryd, ac rwyf am eich sicrhau y byddwn yn gwneud ein gorau i'ch cefnogi chi ym mha bynnag fodd y gallwn drwy'r cyfnod anodd hwn.

Gwn y bydd ysgolion unigol yn wynebu senarios a heriau gwahanol iawn yn y dyddiau a'r wythnosau i ddod, dibynnu ar nifer yr aelodau staff a dysgwyr sydd yn gallu mynychu.

Rwyf wedi gofyn i'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant cyswllt gysylltu â chi dros y dyddiau nesaf er mwyn sicrhau y gellir teilwra'r cymorth yn llawn i anghenion eich ysgol neu glwstwr.

Bydd ystod y cymorth gan staff GwE a fydd ar gael dros yr wythnosau nesaf yn cynnwys:

- Cyfathrebu rheolaidd i gefnogi llesiant arweinwyr;
- Darparu arweiniad ac adnoddau i gefnogi llesiant staff a dysgwyr;
- Crynhoi a rhoi gwybod am ba adnoddau sydd eisoes ar gael i ysgolion trwy Ganolfan Adnoddau GwE a ffynonellau perthnasol eraill;
- Crynhoi a rhoi gwybod am ganllawiau cenedlaethol perthnasol fel y bo'n briodol;
- Darparu cymorth gyda chynllunio dysgu ac addysgu gyda modelau dysgu hybrid;
- Cefnogi arweinwyr gyda chynllunio dulliau dysgu cyfunol a dysgu o bell pan orfodir ysgolion i gau;
- Cefnogi datblygiadau Cwricwlwm i Gymru, os cred yr ysgol neu'r clwstwr bod hyn yn briodol;
- Lleoli staff GwE i helpu ysgolion i aros ar agor.

Credaf mai drwy barhau i gydweithio y gallwn geisio dod o hyd i ddatrysiadau i'r materion sy'n codi. Edrychaf ymlaen at ein trafodaethau a'n hymwneud dros y tymor.



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,  
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



g6.gwegogledd.cymru



GwE Gogledd Cymru

# CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

## Cynnig Proffesiynol GwE ar G6

Mae Cynnig GwE ar G6 yn cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn ysgol.

**Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).**

**Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.**

12/01/2022-21/03/2022	DYDDIAD	CYFRWNG
Cyflwyniad i Ymddygiadau Amddiffynnol i gefnogi lles	14/01/2022	Saesneg
ANG - Asesu Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke (Sesiwn 6, Cyfrwng Saesneg)	14/01/2022	Saesneg
ANG - Rheoli Ymddygiad yn eich Ystafell Ddosbarth (Sesiwn 4, Cyfrwng Saesneg)	18/01/2022	Saesneg
Rhaglen ar gyfer Cynorthwy-wyr Addysgu wrth eu Gwaith (Sesiwn 3, Cyfrwng Saesneg)	18/01/2022	Saesneg
Rhaglen ar gyfer Cynorthwy-wyr Addysgu wrth eu Gwaith (Sesiwn 3, Cyfrwng Cymraeg)	19/01/2022	Cymraeg
Ieithoedd Rhyngwladol/ITM (Sector Cynradd ac Uwchradd) - Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru : DIFFINIO'R CWRICWLWM IEITHOEDD	20/01/2022	Saesneg
Hyfforddiant PACE a Sgiliau Perthynol ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau	26/01/2022	Saesneg
ANG a Lles Disgyblion (Sesiwn 3, Cyfrwng Saesneg)	26/01/2022	Saesneg
Ieithoedd Rhyngwladol yn y cynradd: sesiynau galw heibio- Dyfodol Byd-eang GwE (SECTOR CYNRADD)	03/02/2022	Ddwyieithog
Ieithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR UWCHRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru: Cynllunio'n wahanol ar gyfer CiG	07/02/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	16/02/2022	Saesneg
Ieithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru: Gwybodaeth glir ac arferion ystyrion	17/02/2022	Saesneg
'Bioffilia' - 'Gwell allan nag i mewn', Dr Coral Harper	09/03/2022	Saesneg
Ieithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru: Trosglwyddo: Sut i sicrhau parhad a chynnydd	10/03/2022	Saesneg
Rhaglen ar gyfer Cynorthwy-wyr Addysgu wrth eu Gwaith (Sesiwn 4, Cyfrwng Saesneg)	15/03/2022	Saesneg
Rhaglen ar gyfer Cynorthwy-wyr Addysgu wrth eu Gwaith (Sesiwn 4, Cyfrwng Cymraeg)	16/03/2022	Cymraeg
Hyfforddiant Arferion sy'n Wybodus am Drawma i Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar	16/03/2022	Saesneg
Ieithoedd Rhyngwladol/ITM (SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD) Trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru: Geirfa: ehangder a dyfnder	17/03/2022	Saesneg

## Recordiadau a Deunyddiau Hyfforddiant Helen Worrall

Mae recordiadau a deunyddiau hyfforddiant Helen Worrall megis Chwarae sy'n Seiliedig ar Berthynas, Y Rhestr Wirio Arsylwi a Rôl yr Oedolyn Allweddol bellach ar gael ar [G6](#). **Rhaid cofrestru er mwyn cael mynediad i'r recordiadau.**



## Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG

CYFARFODYDD I'R DYFODOL: BOREAU

- 25 Ionawr 2022
- 27 Ebrill 2022
- 2 Mawrth 2022
- 7 Mehefin 2022
- 5 Ebrill 2022
- 29 Mehefin 2022



# RHAGLENNI CENEDLAETHOL

## Dyddiadau Dysgu Proffesiynol ANG 2021-2022

Mae'r sesiynau hyfforddi rhanbarthol ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yn fyw ar G6. Noder, yn benodol, y bydd y sesiynau ANG a Lles Disgyblion ac ANG – Rheoli Ymddygiad yn eich Dosbarth yn cael eu cynnal eto (cyfrwng Saesneg) ar 18/01/22 ac ar 26/01/22. Am ragor o fanylion a dyddiadau, gweler uchod o dan Cynnig Proffesiynol GwE, [yma](#) ac ar G6.

## Recordiadau a fideos hyfforddiant cenedlaethol a rhanbarthol 2021-22

ANG Sesiwn 1 (Cymraeg)   NQT Session 1 (English)	ANG Sesiwn 3 (Cymraeg)   NQT Session 3 (English)
ANG Sesiwn 4 (Cymraeg)   NQT Session 4 (English)	ANG Sesiwn 5 (Cymraeg)   NQT Session 5 (English)
Sesiwn 1 Mentor Sefydlu (Cymraeg)   Induction Mentor Session 1 (English)	
Hyfforddiant Gwirwyr Allanol (Cymraeg)   External Verifier Training (English)	

## Rhaglen Dysgu Proffesiynol Genedlaethol ar gyfer Mentoriaid Sefydlu



Cynhelir yr ail sesiwn i gefnogi Mentoriaid Sefydlu ANG ar y dyddiadau a nodir isod.

**Teitl Sesiwn Dau yw:** Ymarfer Myfyriol a Sgyrsiau Proffesiynol

Mae gwahoddiad ym mar sgwrs Teams 'IM National Induction Professional Learning/Dysgu Proffesiynol Sefydlu Cenedlaethol'. Os nad ydych wedi ymuno â'r Teams hwn gwasgwch y ddolen hon: [Teams Cenedlaethol ar gyfer Mentoriaid Sefydlu](#)

DYDDIAD	AMSER	CYFRWNG
18/01/2022	13:00 – 15:30	Saesneg
<b>19/01/2022</b>	<b>9:00 – 11:30</b>	<b>Cymraeg</b>
20/01/2022	9:00 – 11:30	Saesneg
21/01/2022	13:00 – 15:30	Saesneg

## NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

### Rhifedd: Adnoddau Addysgu Manwl a SAFMEDS



Dros y misoedd diwethaf, mae GwE wedi bod yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Bangor i ddatblygu adnoddau Addysgu Manwl a SAFMEDS. Gallwch ddod o hyd i hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol bellach i gefnogi datblygiad sgiliau rhifedd ar draws y continwwm 3-16 ar Ganolfan Cefnogaeth GwE. Dyma weminar fer yn amlinellu'r diweddariadau: <https://www.youtube.com/watch?v=sMVTKu1vMM>

### DIWEDDARIAD: Aseidiadau Personol Cenedlaethol 2021-2022

Gwybodaeth bellach:

**Negeseuon Allweddol ar gyfer 2021-2022:** <https://tinyurl.com/negeseuon-allweddol>

**Aseidiadau Personol – Rhifedd (Rhesymu):** <https://tinyurl.com/rhifedd-rhesymu>

### Dyfodol Byd-eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

Am ragor o wybodaeth neu am gymorth gyda'r eitemau isod, cysylltwch â [stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru](mailto:stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru)

**Canolfan Cefnogaeth GwE:** [Ieithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/>

#### SECTOR UWCHRADD:

- Cyfarfodydd Rhwydwaith ANG Dyfodol Byd-eang ITM: Cyfarfod Nesaf: 13/01/2022 am 3:45yp**  
Mae ANG ITM mewn ysgolion uwchradd bellach yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau, cael cymorth a datblygu arferion.
- Dysgu Proffesiynol Dyfodol Byd-eang GwE : paratoi at CiG**  
[Rhagor o fanylion ar gael yma.](#)
- Geiriadur Ffrangeg-Cymraeg / Cymraeg-Ffrangeg ar-lein, agored**  
<https://www.geiriadurffrangeg.cymru/>
- Cystadleuaeth ac Adnoddau i Ysgolion yng Nghymru: Gwobr Anthea Bell i Gyfieithwyr Ifanc**  
[Rhagor o wybodaeth a manylion cofrestru ar gael yma.](#)

# NEWYDDION A GWYBODAETH CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL

CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL  
REGIONAL SCHOOL IMPROVEMENT CONSORTIA



## Rhaglen Dysgu Proffesiynol Iechyd Meddwl: MIND

Mae'r Consortia Addysg yn cynnig rhagor o gyfleoedd i fynychu rhaglenni iechyd meddwl 3-awr MIND yn nhymor y gwanwyn. Nifer cyfyngedig o lefydd. Cliciwch ar y [ddolen hon](#) am fanylion ac i archebu.

## GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

### Newyddlen - SSCE: Cymru

Cliciwch y [ddolen hon](#) i lawrlwytho copi o gylchlythyr SSCE Cymru (Gaeaf 2021).



### BookSlam 2021-22

Her ddarllen i ddisgyblion blynyddoedd 3-6 yng Nghymru yn seiliedig ar lyfrau Saesneg yw BookSlam. Mae dwy elfen i BookSlam; trafodaeth grŵp am un llyfr a chreu hysbyseb hyrwyddo ar gyfer llyfr arall. Cynhelir rownd sirol yn gyntaf gyda'r enillwyr yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd genedlaethol yn Aberystwyth ym mis Mehefin 2022. Bydd pob ysgol sy'n cofrestru i gymryd rhan yn derbyn pecyn o ganllawiau i gyd-fynd â 10 llyfr BookSlam.

Am fwy o fanylion [cliciwch yma](#).